



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnod o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Crynodeb o'r cynnig

Mae smygu yn parhau i fod yn un o brif achosion salwch a marwolaeth y gellir eu hatal yng Nghymru, gan achosi tua **3800 o farwolaethau** a chostio **£1.56 biliwn y flwyddyn yn ôl yr amcangyfrif**. Mae'n achosi canser, clefyd y galon a salwch anadlol ac yn rhoi baich ar smygwyr a'u teuluoedd gyda thua £650 miliwn yn cael ei wario bob blwyddyn i drin a chefnogi smygwyr sy'n profi salwch ac anabledd hirdymor, sef tua 5 y cant o gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol Cymru. Mae costau economaidd ehangach smygu hefyd yn sylweddol drwy golli cynhyrchiant (£670 miliwn), am fod salwch sy'n gysylltiedig â smygu yn atal pobl rhag gweithio a chyfrannu at yr economi a chostau amgylcheddol (£241 miliwn) gan gynnwys costau tanau, sbwriel a llygredd aer. Hefyd, mae cysylltiad cryf rhwng smygu ac anghydraddoldebau iechyd. Mae cyfradd smygu yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (22.6%) fwy na thair gwaith yn uwch nag yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (6.8%), sy'n adlewyrchu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ehangach.

Er bod gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu'r GIG **Helpa Fi i Stopio** yn darparu cymorth am ddim sy'n seiliedig ar dystiolaeth i smygwyr er mwyn helpu unigolion i roi'r gorau i smygu am byth, mae tua **10%** o bobl yng Nghymru yn smygu ac mae **1.8%** o bobl ifanc ym Mlynnyddoedd 7 i 11 yn nodi eu bod yn smygu o leiaf unwaith yr wythnos. Er bod cyfraddau smygu yn gostwng (roedd 13% o oedolion yn smygu yn 2022-23), mae atal unigolion rhag dechrau smygu, yn enwedig plant a phobl ifanc, yn flaenoriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o smygwyr yn ymwybodol o'r risgiau hyn ac, o ganlyniad, maent am roi'r gorau iddi - ond mae natur gaethiwus sigarêts yn golygu na allant wneud hynny. Mae'r mwyafrif o smygwyr yn dechrau yn ystod eu hieuenctid ac mae **mwyafrif 4 o bob 5 smygwr yn dechrau cyn 20 oed** ac yna maent yn gaeth am oes. **Ni fyddai tri chwarter y smygwyr presennol byth wedi dechrau pe baent yn cael y dewis eto**. Yn gryno, mae'n llawer haws atal pobl rhag dechrau smygu yn y lle cyntaf.

Cyflwynodd Deddf Tybaco a Fêps 2026 ("Deddf 2026") oedran gwerthu cynhyrchion tybaco newydd ledled y DU. O 1 Ionawr 2027, bydd yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco (yn ogystal â chynhyrchion smygu llysieuol a phapurau sigarêts) i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009. Mae hyn yn disodli'r oedran gwerthu blaenorol o 18 oed. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd oedran gwerthu yn codi'n raddol. Nod y polisi hwn yw creu 'cenhedlaeth ddi-fwg', gan leihau'r defnydd o dybaco ym mhoblogaeth y DU dros amser.

Mae Deddf 2026 yn darparu bod rheoliadau yn ofynnol gan Weinidogion Cymru sy'n nodi'r gofynion o ran maint a golwg yr hysbysiadau rhybudd ynglŷn ag oedran gwerthu tybaco (yr "hysbysiad oedran gwerthu") y mae'n rhaid eu harddangos yng Nghymru mewn man amlwg ym mhob man gwerthu lle mae tybaco yn cael ei werthu drwy fanwerthu. Mae'r gofyniad i arddangos hysbysiad oedran gwerthu a'r geiriad y mae'n rhaid iddo ei gynnwys yn adran 6 o Ddeddf 2026 ac mae'n nodi:

"It is illegal to sell tobacco products to anyone born on or after 1 January 2009"

"Mae'n anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009".

Daw'r gofyniad hwn i rym ar yr un pryd â'r oedran gwerthu newydd ac mae'n disodli'r gofyniad hysbysu oedran gwerthu blaenorol, a oedd yn adlewyrchu'r hen drosedd o werthu i unrhyw un o dan 18 oed. Nod y gofyniad i arddangos hysbysiad oedran gwerthu yw helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfyngiadau'r oedran gwerthu a hyrwyddo cydymffurfedd. Mae Rheoliadau Deddf Tybaco a Fêps 2026 (Hysbysiadau Oedran Gwerthu a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026 (y "Rheoliadau") yn cefnogi hyn drwy sicrhau bod yr hysbysiadau a'r testun a ddangosir arnynt yn ddigon o faint i fod yn hollol weladwy i gwsmeriaid a manwerthwyr, a'i bod hefyd yn ymarferol o hyd i fanwerthwyr eu harddangos.

Felly mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r maint lleiaf ar gyfer yr hysbysiadau hyn, a maint lleiaf y datganiad ar yr hysbysiad, ar gyfer mangreoedd yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r gofynion ar gyfer hysbysiadau oedran gwerthu y mae'n rhaid i swmpwerthwyr tybaco, (a ddiffiniwyd yn [Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco \(Arddangos\) \(Cymru\) 2012 rheoliad 2](#)), sy'n arddangos cynhyrchion tybaco, eu harddangos wrth fynedfa ardaloedd tybaco yn eu mangre. Yn olaf, mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sy'n cyfyngu ar arddangos cynhyrchion tybaco a rhestrau prisiau mewn mangreoedd yng Nghymru, i adlewyrchu'r oedran gwerthu cynhyrchion tybaco newydd.

Cwestiynau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1. Sut mae'r pum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddatblygiad a gweithrediad y polisi neu'r ddeddfwriaeth hon?

Mae'r Rheoliadau yn cefnogi'r broses o roi'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg ar waith yng Nghymru a fydd yn atal cynhyrchion tybaco rhag cael eu gwerthu i unrhyw un a aned ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009 byth. Bydd y Rheoliadau a'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg yn hyrwyddo'r gostyngiad mewn lefelau smygu yng Nghymru, gan leihau'r effeithiau cymdeithasol y mae smygu yn eu cael yng Nghymru a chefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau [cyfradd smygu o 5% yng Nghymru erbyn 2030](#).

Un o themâu allweddol [Strategaeth Cymru Ddi-fwg yw 'Cenedlaethau'r Dyfodol'](#) ac atal plant a phobl ifanc rhag dechrau smygu. Bydd y Rheoliadau hyn a'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg yn atal cenedlaethau o blant a phobl ifanc yn y dyfodol rhag dechrau smygu, a fydd yn cael effaith fuddiol ar eu hiechyd ac yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Bydd lleihau cyffredinrwydd smygu hefyd yn lleihau amlygiad plant i fwg ail-law, sy'n arbennig o niweidiol i'w hiechyd.

Felly, bydd y Rheoliadau a'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg yn hybu iechyd y cyhoedd, yn atal clefydau ac yn diogelu iechyd a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru drwy leihau'r defnydd o dybaco dros amser.

Pe bai llai o bobl yn dechrau smygu byddai'r manteision iechyd yn arwain at y canlynol:

- Costau is i'r GIG a gofal cymdeithasol
- Cynhyrchiant/enillion uwch, costau is, a llai o afiechyd i'r rhai a allai fel arall fod wedi dechrau smygu a datblygu cyflyrau iechyd

- Llai o salwch ymhlith oedolion a phlant a achosir gan fwg ail-law gan gynnwys costau triniaeth y gellir eu hosgoi
- Lleihad mewn anghydraddoldebau iechyd
- Gwariant a chyfanswm elw uwch mewn sectorau eraill o'r economi wrth i ddarpar smygwyr ddargyfeirio eu gwariant.

2. Gyda phwy rydych wedi cydweithio a phwy rydych wedi'i gynnwys wrth ddatblygu'r cynnig, ac er mwyn deall ei effeithiau, gan gynnwys ar bobl, aelwydydd, cyrff cyhoeddus, busnesau a'r trydydd sector (e.e. drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol neu ymgynghori â'r cyhoedd?)

Mae Llywodraethau a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys timau gorfodi, y trydydd sector a chyrff manwerthu i gyd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn.

Mae ymgynghoriad manwl wedi cael ei gynnal ar gynigion y polisi cenhedlaeth ddi-fwg. Rhwng mis Hydref 2023 a mis Rhagfyr 2023, cynhaliodd llywodraeth y DU ar y pryd ymgynghoriad a oedd yn agored i'r DU gyfan ar gynigion polisi i'w cynnwys yn y Bil Tybaco a Fêps. Cafwyd 27,921 o ymatebion, gan gynnwys 896 gan sefydliadau a 27,025 gan unigolion fel unigolion ac yn broffesiynol. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys y newidiadau i oedran gwerthu cynhyrchion tybaco; Roedd 63.2% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd 32.2% yn anghytuno a dywedodd 4.6% nad oeddent yn gwybod. Roedd hefyd yn cynnwys cwestiwn ynghylch a oedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai angen diweddarau hysbysiadau oedran gwerthu mewn mangreoedd manwerthu i adlewyrchu'r oedran gwerthu newydd, ac roedd 71.8% o'r ymatebwyr yn cytuno, roedd 22.6% yn anghytuno a dywedodd 5.6% nad oeddent yn gwybod.

Er nad oedd yr ymgynghoriad yn gofyn yn benodol am faint na golwg yr hysbysiadau, gwnaeth nifer bach o ymatebwyr sylwadau a oedd yn berthnasol i'r materion hyn. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion yn awgrymu y dylem geisio efelychu gofynion maint blaenorol ac y dylai'r arwyddion fod mewn ffont mawr ac yn hawdd eu gweld, yn ogystal ag eraill yn awgrymu bod maint A3 yn rhy fawr.

Fel rhan o ddogfennau'r Bil Tybaco a Fêps, cafodd ystyriaeth fanwl o effeithiau'r cynnig ei chynnal [a'i chyhoeddi](#). I randdeiliaid yng Nghymru, drwy gydol proses y Bil ac wrth ddatblygu'r Rheoliadau hyn a'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg ehangach, mae cydweithio estynedig a manwl wedi digwydd er mwyn sicrhau bod yr effeithiau yn cael eu deall a'u hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi.

3. Sut mae'r polisi yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a chanlyniadau llesiant hirdymor?

Bydd y Rheoliadau yn hybu iechyd y cyhoedd, yn atal clefydau ac yn diogelu iechyd a llesiant pobl Cymru, yn enwedig plant a phobl ifanc. Mae'r Strategaeth [Cymru ddi-fwg](#) yn pennu'r uchelgais hirdymor o fod yn ddi-fwg yng Nghymru erbyn 2030. Mae'r Rheoliadau hyn a'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg yn cefnogi'r uchelgais hirdymor i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru drwy leihau'r defnydd o dybaco yng Nghymru.

4. Beth yw'r effeithiau allweddol (cadarnhaol, negyddol, a chyfleoedd) ymhob un o'r saith nod lles?

Bydd y Rheoliadau yn cefnogi pob un o'r saith nod llesiant yn gadarnhaol drwy leihau nifer y bobl sy'n dechrau smygu, sydd ag effeithiau sylweddol iawn ar iechyd, yr economi a chymdeithas yng Nghymru.

5. Pa dystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau o dan y Ddeddf, sydd wedi llywio'r polisi, a sut y bydd yn cefnogi'r broses barhaus o wneud penderfyniadau?

Ystyriwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar bob cam wrth i'r Bil Tybaco a Fêps gael ei ddatblygu a nawr fel rhan o'r broses o'i roi ar waith. Mae'r Rheoliadau a'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gryf drwy anelu at wella iechyd a llesiant.

Crynodeb o'r Asesiadau Effaith ar gyfer y cynnig hwn

Rhaid cyhoeddi (os yw'r Asesiad Effaith yn ofynnol)

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Wedi'i gwblhau: Ydy

Asesiad Effaith Hawliau Plant

Wedi'i gwblhau: Ydy

Asesiad Effaith Iechyd

Wedi'i gwblhau: Nac ydy - nid yw'r penderfyniad yn strategol ei natur.

Cyhoeddwyd: Cyhoeddir crynodeb o'r penderfyniad

Asesiadau Effaith sy'n orfodol ac yn ofynnol i'w cymeradwyo

Asesiad Effaith y Gymraeg

Wedi'i gwblhau: Ydy

Asesiad Effaith Diogelu Data

Wedi'i gwblhau: Ydy

Asesiadau Effaith Eraill

Asesiad Effaith Bioamrywiaeth

Wedi'i gwblhau: ddim yn ofynnol ar gyfer y cynnig hwn

Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig

Wedi'i gwblhau: ddim yn ofynnol ar gyfer y cynnig hwn

Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Wedi'i gwblhau: ddim yn ofynnol ar gyfer y cynnig hwn

Asesiad Effaith Carbon

Wedi'i gwblhau: ddim yn ofynnol ar gyfer y cynnig hwn

Asesiad Effaith y Ddyletswydd Ansawdd (Iechyd)

Wedi'i gwblhau: ddim yn ofynnol ar gyfer y cynnig hwn

Asesiad Effaith Economaidd-gymdeithasol

Wedi'i gwblhau: ddim yn ofynnol ar gyfer y cynnig hwn